News and information for Wales from:
Wales Council for Voluntary Action
Baltic House, Mount Stuart Square,
Cardiff Bay, CF10 5FH
Helpdesk 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Rheoliadau pensiwn newydd yn mynd i effeithio ar elusennau

O fis Hydref 2012, bydd yn ofynnol i bob cyflogwr - gan gynnwys elusennau - gynnig pensiwn yn y gweithle i weithwyr a gwneud cyfraniad, yn ôl y gyfraith.

O'r dyddiad hwnnw, bydd yn rhaid cynnwys pob deilydd swydd cymwys yn awtomatig mewn cynllun pensiwn cymwys – gan roi gwybod iddo/iddi am hynny a rhoi'r dewis iddo/iddi beidio ag ymuno.

Bydd yn ofynnol i chi dalu cyfraniadau'r cyflogwr, sef tri y chant o enillion y gweithiwr o leiaf. Bydd hefyd yn ofynnol i chi gofrestru â'r Rheolydd Pensiynau a rhoi gwybod iddynt am fanylion eich cynllun a nifer y bobl yr ydych wedi'u cynnwys yn y cynllun.

Mae deilydd swydd cymwys yn weithiwr sy'n ennill dros yr isafswm cyflog, sy'n gweithio yn y DU ac sydd rhwng 22 mlwydd oed ac oedran pensiwn y wladwriaeth.

Cewch wybod rhagor am y gofynion newydd hyn ar wefan y Rheolydd Pensiynau – gan gynnwys a yw cynllun pensiwn eich grŵp eisoes yn cyfrif tuag at statws cynllun cymwys – ewch i www.tpr.gov.uk/qualifyingscheme. Mae WCVA wedi cyhoeddi canllawiau hefyd, sydd ar gael yn http://www.wcva-ids.org.uk/wcva/1103.

Mwy o dryloywder os gwelwch yn dda wrth lunio fersiwn derfynol cyllideb Llywodraeth Cymru

Fis diwethaf, daeth Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol i gytundeb ar y gyllideb a bellach mae cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi (gallwch weld yr holl ddogfennau yn http://bit.ly/tvngy0).

Cafwyd trafodaeth a phleidlais ar y gyllideb hon yn y Senedd ar ddydd Mawrth 6 Rhagfyr ac roedd cefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol wedi golygu bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cymeradwyo'r gyllideb.

Yn dilyn ymateb WCVA i'r gyllideb ddrafft a'r sesiwn dystiolaeth gerbron y Pwyllgor Cyllid, cyfarfu aelodau o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector â Jane Hutt yn ddiweddar i drafod effaith y gyllideb ar y trydydd sector.

Yn yr ymateb ac yn y cyfarfod hwnnw, gofynnwyd am ragor o wybodaeth am sut yn union y byddai'n effeithio ar gyllid y sector yn y meysydd portffolio amrywiol. Bellach, mae tîm y Gweinidog wedi darparu rhywfaint o fanylion pellach ac mae'n dangos pa gamau cyllideb sy'n cynnwys cyllid ar gyfer y sector ond nid yw'n rhoi'r holl ffigurau.

Bydd WCVA yn parhau i drafod â swyddogion Llywodraeth Cymru am yr angen i gael cymaint o dryloywder a hygyrchedd â phosib yn ffigurau'r gyllideb pan gânt eu cyhoeddi a gobeithio y bydd hyn yn golygu y byddwn yn cael rhagor o wybodaeth yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau craffu eraill hefyd wedi rhoi sylw i'r pwynt hwn ac wedi gwneud argymhellion tebyg i'r Gweinidog.

Os oes arnoch angen rhagor o fanylion am y gyllideb, mae croeso i chi gysylltu â Michelle Matheron, Uwch Swyddog Materion Cyhoeddus (mmatheron@wcva.org.uk).

Newidiadau i gredydau treth yn ‘cosbi’ teuluoedd tlawd

Mae’r newidiadau i drethi a budd-daliadau a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref y Canghellor yn 'newyddion ofnadwy i'r teuluoedd tlotaf', meddai elusen fawr dros blant.
Yn ei ddatganiad diweddar, cyhoeddodd y Canghellor George Osborne na fydd cynnydd a fwriadwyd i Gredyd Treth Plant yn cael ei weithredu bellach, ac na fydd y Llywodraeth yn cynyddu cyfradd elfen cwpl nac elfen rhiant unigol y Credyd Treth Gwaith yn ôl chwyddiant y flwyddyn nesaf.

Ar ôl y datganiad, fe wnaeth Barnardo’s honni y byddai rhewi’r credydau treth hyn yn gwthio 100,000 yn rhagor o blant i dlodi ledled y DU. Dywedodd James Pritchard, Achub y Plant Cymru: ‘Mae newyddion heddiw yn newyddion ofnadwy i’r teuluoedd tlotaf - y rhai sy’n gweithio a’r rhai heb waith - sydd wedi gweld y budd-daliadau craidd maent yn dibynnu arnynt yn cael eu torri go iawn. I nifer o deuluoedd, gallai’r cynnydd o £110 na chafodd ei weithredu olygu'r gwahaniaeth rhwng rhoi bwyd ar y bwrdd neu adael i’r plant lwgu.’

Dywedodd Chris Johnes, Pennaeth Oxfam Cymru: ‘Bydd rhewi credydau treth gwaith yn cosbi’r rheini sy’n ceisio gwneud bywoliaeth drwy weithio eu ffordd allan o dlodi – dyma un o'r llefydd diwethaf y dylai'r Llywodraeth fod yn edrych am arbedion. ‘Ar adeg pan mae’r cartrefi sydd â’r incwm isaf eisoes yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd, gallai hyn wthio hyd yn oed mwy o weithwyr i dlodi.’

Dywedodd Sean O’Neill, Cyfarwyddwr Polisi gyda Plant yng Nghymru, ‘Ni allai tro pedol dramatig Llywodraeth y DU ddigwydd ar amser gwaeth ar gyfer teuluoedd yng Nghymru sydd o dan bwysau mawr eisoes ac yn ei chael hi’n anodd ymdopi gydag effaith y dirywiad economaidd. Gyda lefelau diweithdra yn codi a chynnydd yng nghostau bwyd, tanwydd a thrafnidiaeth, bydd cyhoeddiad y Canghellor eto yn taro teuluoedd incwm isel yn galed a gwneud y targed trawsbleidiol o ddileu tlodi plant erbyn 2020 gymaint yn fwy heriol.’

Er mwyn gweld Datganiad yr Hydref y Canghellor yn ei gyfanrwydd, ewch i wefan Trysorlys EM: http://bit.ly/tEGeaU

Y Trydydd Sector yn ‘besimistaidd ynglyn a’r dyfodol’, yn ol arolwg WCVA

Mae WCVA wedi cynnal cyfres o arolygon yn y ddwy flynedd ddiwethaf i fonitro effeithiau’r dirwasgiad ac adferiad ar fudiadau yng Nghymru. Mae’r canlyniadau diweddaraf bellach ar gael ar wefan WCVA, www.wcva.org.uk.

Yn gryno, mae rhagolygon cyffredinol y sector yn parhau i fod yn besimistaidd ynglŷn â’r dyfodol, gyda bron hanner y mudiadau a wnaeth ymateb yn yr arolwg diwethaf yn teimlo bod pethau’n mynd i waethygu yn y flwyddyn nesaf.

Bydd WCVA yn parhau i fonitro sut mae’r sector yn teimlo am yr hinsawdd economaidd bresennol. Bydd Cyflwr y Sector nesaf yn parhau gydag Arolwg neu yn y flwyddyn newydd, gan ddechrau ar Ionawr 3, a fydd ar agor tan Ionawr 31.

Fel arfer caiff yr arolwg ei anfon at fudiadau, ond os oes yn well gennych gwblhau’r holiadur ar-lein ewch i dudalen Ymchwil gwefan WCVA.

Data Protection Act 1998 Contact details of all recipients of the National Supplement are held and processed by WCVA on computer. The information is used by WCVA for the monitoring and promotion of the voluntary sector in Wales. Contact details are disclosed to third parties for the purposes of assisting this promotion.
Wales Council for Voluntary Action, Head Office - Baltic House, Mount Stuart Square, Cardiff CF10 5FH, registered charity number 218093, company limited by guarantee 425299, registered in Wales.